

## Gwybodaeth sylfaenol am ddiogelu eich adneuron cymwys – gweler y nodiadau drosodd yn ogystal

Diogelir adneuron cymwys yn Swansea Building Society gan:	Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol ("FSCS") <sup>1</sup>
Terfyn y diogelwch:	£85,000 i bob adneuwyr fesul banc / cymdeithas adeiladu / undeb credyd <sup>2</sup>  Mae'r enwau masnachu canlynol yn rhan o'ch cymdeithas adeiladu: Swansea Building Society
Os oes gennych fwy o adneuron cymwys yn yr un banc / cymdeithas adeiladu / undeb credyd	Mae pob un o'ch adneuron cymwys yn yr un banc / cymdeithas adeiladu / undeb credyd yn cael eu "crynhoi" a'r cyfanswm yn ddarostyngedig i'r terfyn, sef £85,000
Os oes gennych gyfrif ar y cyd gyda pherson(au) arall / eraill:	Mae'r terfyn o £85,000 yn berthnasol i bob adneuwyr ar wahân <sup>3</sup>
Cyfnod ad-dalu yn achos methiant y banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd:	20 diwrnod gwaith <sup>4</sup>
Arian yr ad-daliad	Punt sterling (GBP, £) neu, ar gyfer canghennau o fanciau'r DU sy'n gweithredu mewn Gwladwriaethau eraill sy'n Aelod o'r EEA, arian y wladwriaeth honno.
I gysylltu â Swansea Building Society er mwyn holi am eich cyfrif:	Swansea Building Society 11/12 Stryd Cradock Abertawe SA1 3EW  01792 739100 <a href="mailto:info@swansea-bs.co.uk">info@swansea-bs.co.uk</a>
I gysylltu â'r FSCS am ragor o wybodaeth ynghylch digolledu:	Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol 10fed Llawr Beaufort House 15 St Botolph Street Llundain EC3A 7QU  0800 678 1100 neu 020 7741 4100 <a href="mailto:ICT@fscs.org.uk">ICT@fscs.org.uk</a>
Mwy o wybodaeth:	<a href="http://www.fscs.org.uk">www.fscs.org.uk</a>

# Gwybodaeth ychwanegol

## 1 Y Cynllun sy'n gyfrifol am ddiogelu eich adnau cymwys

Gwarchodir eich adnau cymwys gan Gynllun Gwarantu Adnau statudol. Pe digwyddai ansolfedd i'ch banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd, ad-deliid eich adneuoion cymwys hyd at £85,000 gan y Cynllun Gwarantu Adnau.

## 2 Terfyn cyffredinol y diogelwch

Os nad yw adnau a warchodir ar gael am fod banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd yn gallu cwrdd â'i rwymedigaeth ariannol, ad-deliir adneuwyr gan Gynllun Gwarantu Adnau. Mae'r ad-daliad hwn yn gwarchod uchafswm o £85,000 mewn unrhyw un banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd. Mae hyn yn golygu fod pob adnau cymwys yn yr un banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd yn cael eu adio er mwyn pennu lefel y gwarchod. Os yw adneuwyr yn dal cyfrif cynilo sy'n cynnwys £80,000, dyweder, a chyfrif cyffredol yn cynnwys £20,000, dim ond £85,000 a ad-deliir iddo / iddi.

Mewn rhai achosion, diogelir adneuoion cymwys sy'n cael eu dosbarthu fel 'balansau uchel dros dro' uwchlaw £85,000 am chwe mis ar ôl i'r swm gael ei gredu neu o'r foment pan ddaw adnau cymwys o'r fath yn gyfreithiol drosglwyddadwy. Dyma adneuoion cymwys sy'n gysylltiedig â rhai digwyddiadau penodol gan gynnwys:

- rhai trafodion sy'n berthnasol i gartref presennol neu ddarpar unig gartref neu brif breswylfa neu lety'r adneuwyr;
- marwolaeth, neu briodas neu bartneriaeth sifil yr adneuwyr neu ysgariad, ymddeoliad, diswyddiad, dileu swydd neu analluedd;
- tal i'r adneuwyr fudd-daliadau yswiriant neu ddigolledu am anafiadau troseddol neu gollfarn ar gam.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar [www.fscs.org.uk](http://www.fscs.org.uk)

## 3 Terfyn diogelwch ar gyfer cyfrifon ar y cyd

Yn achos cyfrifon ar y cyd, mae'r terfyn o £85,000 yn berthnasol i bob un adneuwyr.

Serch hynny, bydd adneuoion cymwys mewn cyfrif sy'n gymwys i ddau neu ragor o bersonau fel aelodau o bartneriaeth fusnes, cymdeithas neu gasgliad o natur debyg, heb bersonoliaeth gyfreithiol, yn cael eu crynhoi a'u trin fel pe baent wedi cael eu gwneud gan un adneuwyr at bwrpas cyfrifo'r terfyn o £85,000.

## 4 Ad-dali

Y Cynllun Gwarantu Adnau cyfrifol yw'r:

### Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol

10fed Llawr Beaufort House, 15 St Botolph Street, Llundain EC3A 7QU

Ffôn: 0800 678 1100 neu 020 7741 4100

E-bost: [ICT@fscs.org.uk](mailto:ICT@fscs.org.uk)

Bydd yn ad-dalu eich adneuoion cymwys (hyd at £85,000) o fewn 20 diwrnod gwaith hyd at 31 Rhagfyr 2018; o fewn 15 diwrnod gwaith o 1 Ionawr 2019 tan 31 Rhagfyr 2020; o fewn 10 diwrnod gwaith o 1 Ionawr 2021 tan 31 Rhagfyr 2023; ac o fewn 7 diwrnod gwaith o 1 Ionawr 2024 ymlaen, oni bai pan fydd eithriadau penodol yn berthnasol.

Ble na fydd modd i'r FSCS wneud i'r cyfanswm sydd i'w ad-dalu fod ar gael o fewn 7 diwrnod gwaith, bydd, o 1 Mehefin 2016 tan 31 Rhagfyr 2023, yn sicrhau fod gennych chi fynediad i swm addas o'ch adneuoion a warchodir er mwyn cwrdd â chostau byw (yn achos adneuwyr sy'n unigolyn) neu i gwrdd â chostau busnes angenrheidiol neu gostau gweithredu (yn achos adneuwyr sydd ddim yn unigolyn neu gwmni mawr) o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud cais. Unwaith eto, ceir eithriadau penodol i'r ddyletswydd hon.

Os na fyddwch wedi derbyn ad-daliad o fewn y dyddiadau hyn, dylech gysylltu â'r Cynllun Gwarantu Adneuoion am y gall yr amser y gellir hawlio ad-daliad gael ei rwystro ar ôl cyfwng amser penodol. Gellir cael gwybodaeth bellach wrth fynd i [www.fscs.org.uk](http://www.fscs.org.uk).

## Gwybodaeth bwysig ychwanegol

Yn gyffredinol, gwarchodir pob adneuwyr manwerthu a busnesau gan Gynlluniau Gwarantu Adnau. Nodir eithriadau ar gyfer rhai adneuoion ar wefan y Cynllun Gwarantu Adnau cyfrifol.

Bydd eich banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd hefyd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw eithriadau rhag diogelwch a allai fod yn berthnasol.

Os yw adneuoion yn gymwys, bydd y banc, y gymdeithas adeiladu neu'r undeb credyd hefyd yn cadarnhau hyn ar y datganiad o gyfrif.

## Eithrir adneuad o gael ei ddiogelu os:

- (1) Yw'r deiliad ac unrhyw berchennog â bydd ar yr adneuad erioed wedi cael eu hadnabod yn unol â gofynion gwyngalchu arian. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd.
- (2) Mae'r adneuad yn deillio o unrhyw drafodiad sy'n gysylltiedig â rhywbeth ble cafwyd collfarn troseddol am wyngalchu arian.
- (3) Yw'r adneuad yn cael ei wneud gan adneuwyr sy'n un o'r canlynol:
  - sefydliad credyd
  - sefydliad ariannol
  - cwmni buddsoddiadau
  - ymgymeriad yswiriant
  - ymgymeriad ailyswirio
  - ymgymeriad buddsoddi ar y cyd
  - pensiwn neu gronfa ymddeo <sup>1</sup>
  - awdurdod cyhoeddus, heblaw am awdurdod lleol bach
- (4) Mae'n adnau gan undeb credyd y mae'r undeb credyd ei hun yn deilwng ohono.
- (5) Mae'n adnau y gellir ei brofi gan offeryn ariannol yn unig <sup>2</sup> oni bai ei fod yn gynnyrch cynilo a dystir gan dystysgrif adneuo a wnaed yn enw person a enwir ac a fodolodd yn y DU, Gibraltar neu Aelod-Wladwriaeth o'r UE ar 2 Gorffennaf 2014)
- (6) Mae'n adnau o gynllun buddsoddi cyfun sy'n gymwys fel cwmni bach <sup>3</sup>
- (7) Mae'n adnau o sefydliad gwasanaethau ariannol tramor sy'n gymwys fel cwmni bach <sup>4</sup>
- (8) Mae'n adnau o rai busnesau rheoledig penodol (busnesau buddsoddi, ymgymeryn yswiriant ac ymgymeryn ailyswirio) sy'n gymwys fel busnes bach neu gwmni bach <sup>5</sup> – cyfeirier at yr FSCS am ragor o wybodaeth am y categori hwn
- (9) Nid yw'n cael ei ddal gan sefydliad sy'n fanc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd yn y DU nac, yn achos banc neu gymdeithas adeiladu a ymgorfforwyd yn y DU, nid yw'n cael ei ddal gan sefydliad yn Gibraltar.

Am ragor o wybodaeth am eithriadau, cyfeiriwch at wefan y CDGA ar [www.fscs.org.uk](http://www.fscs.org.uk)

- 1 Nid yw adneuo gan gynlluniau pensiwn personol, cynlluniau pensiwn rhanddeiliaid a chynlluniau pensiwn cyflogaeth mentrau meicro, bach a chanolig eu maint yn cael eu heithrio.
- 2 Fel y rhestrir yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Gweithgareddau a Reoleiddir) Gorchymyn 2001, i'w ddarllen gyda Rhan 2 o'r Atodlen hwnnw
- 3 Dan Ddeddf y Cwmnïau 1985 neu Ddeddf y Cwmnïau 2006
- 4 Gweler troednodyn 3
- 5 Gweler troednodyn 3